

Tasg 2

Hwyl!

1. Meddylwch am gamp “wahanol” neu gamp “eithafol” arall, e.e.



2. Ysgrifennwch ddarn i ddisgrifio sut i wneud y gamp, e.e.

Beth ydy smwddio eithafol?

Rhaid cael haearn smwddio a bwrdd smwddio.

Rhaid mynd i fyny mynydd ... neu i'r goedwig – i smwddio.

3. Gwaith pâr

Partner A: Rwyd ti'n mynd i wahodd Partner B i ddod i wneud y gamp gyda ti.

Partner B: Rwyd ti'n gofyn cwestiynau ac yna rwyd ti'n derbyn neu'n gwrthod.

Ydych chi'n cofio sut i wahodd?

Ysgrifennwch y patrymau pwysig yn eich llyfrau ac yna ewch i'r dudalen nesaf i wirio.

Os ydych chi eisiau mwy o help, darllenwch y ddeialog eto gyda'ch partner chi.

Geirfa

bryn / rhiw	hill	haearn	iron
camp	sport	gwahodd	(to) invite
gwahanol	different	derbyn	(to) accept
eithafol	extreme	gwrthod	(to) refuse
eirafyrddio	snowboarding	gwirio	(to) check
smwddio	ironing		

Gwahodd

Wyt ti eisiau ...? > Ydw, os gwelwch yn dda.
Nac ydw, dim diolch.

Ydych chi eisiau ...? > Ydyn, os gwelwch yn dda.
Nac ydyn, dim diolch.

Hoffet ti ddod i ...? > Hoffwn, os gwelwch yn dda.
Na hoffwn, mae'n ddrwg gen i / gyda fi.

Hoffech chi ddod i ...? > Hoffen, os gwelwch yn dda.
Na hoffen, mae'n ddrwg gennyn ni / gyda ni.

Beth am ddod i ...? > Syniad da, diolch.
Na, dw i ddim yn meddwl, diolch.

Geirfa

cwrdd / cyfarfod	(to) meet
------------------	-----------

Gofyn Cwestiynau

Beth ydy ...?

Beth sy'n digwydd?

Ble mae'r ...? > Yn ...

Ble ydyn ni'n cwrdd/cyfarfod? > Yn ...


Pryd? > Dydd Sadwrn
Nos Wener
Am saith o'r gloch

Sut ydyn ni'n mynd? > Ar y bus
Yn y car
Cerdded

Oes ...? > Oes. / Nac oes.

Ydy ...? > Ydy. / Nac ydy.

4. Beth ydych chi'n feddwl o'r campau? Trafodwch hyn.
Os ydych chi eisiau help, edrychwch yn yr adran **Mynegi Barn**.



5. Mae'r papur bro yn gofyn i chi ysgrifennu darn am gamp wahanol neu eithafol.

Ysgrifennwch am y gamp. Rhaid i chi ddweud:

- beth ydy'r gamp
- ble mae pobl yn gwneud y gamp
- sut mae gwneud y gamp
- eich barn chi am y gamp

